Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan
All Wales Medicines Strategy Group

GIG CYMRU NHS WALES

# Adroddiad Blynyddol: 2023-2024





## *Gwella iechyd a lles pobl yng Nghymru drwy alluogi cleifion i gael y canlyniadau gorau o'u meddyginiaethau*



*Mae'r ddogfen hon ar gael yn y Saesneg*
*This document is available in English*

# Cynnwys



**Amdanom ni** 3
- Croeso'r Cadeirydd 3
- Proffil AWMSG 5
- 2023–2024 mewn rhifau 5
- Strategaeth bum mlynedd AWMSG: 2024-2029 6

**Gweithio mewn partneriaeth** 7
- Ein partneriaid a sut maen nhw'n cymryd rhan 7
- Yr hyn yr ydym wedi'i gyflawni gyda'n gilydd 9
- Ymgysylltu 11

**Newyddion** 14
- Cael y canlyniadau gorau o feddyginiaethau 14
- Galluogi mynediad at feddyginiaethau 15
- Diogelwch sy'n gysylltiedig â meddyginiaethau 16
- Optimeiddio gwerth 17

**Optimeiddio meddyginiaethau** 18
- Canllawiau ac adnoddau rhagnodi 18
- Strategaethau a chydnabyddiaethau 20

**Monitro a dadansoddi rhagnodi** 21
- Dangosyddion Rhagnodi Cenedlaethol 21
- Dangosyddion Rhagnodi Cenedlaethol 2022-2025 21
- Monitro Dangosyddion Rhagnodi Cenedlaethol 21

**Mynediad at feddyginiaethau** 22
- Sganio'r gorwel 22
- Llwybrau mynediad 23
- Tîm Mynediad at Feddyginiaethau Masnachol 25
- Adolygiad o'n llwybrau mynediad at feddyginiaethau 26

**Ymchwil a chyhoeddiadau** 27

**Aelodaeth** 28
- AWMSG 28
- AWPAG 29
- NMG 31
- OWMAG 32

# Amdanom ni
## Croeso'r Cadeirydd

**Mae ein nodau yn uchelgeisiol, ond rwy'n credu, trwy ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol a gweithio'n agos gyda sefydliadau cenedlaethol, y byddwn yn cyflawni ein nodau.**

Wrth i'r gofynion clinigol, ariannol a chymdeithasol ar y GIG yng Nghymru barhau, rhaid i Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan (AWMSG) sicrhau ein bod yn addasu i gefnogi anghenion cynyddol cleifion, eu teuluoedd a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol. Eleni rydym wedi cydweithio â'n partneriaid allweddol i alluogi mynediad at feddyginiaethau diogel ac effeithiol, gan wella canlyniadau wrth sicrhau'r gwerth gorau i bawb yng Nghymru. Mae adroddiad blynyddol eleni yn rhoi trosolwg o'r digwyddiadau allweddol a'r gwaith cydweithredol sydd wedi digwydd yn ystod 2023–2024. Mae hefyd yn amlygu'r canllawiau a'r adnoddau a gynhyrchwyd i gefnogi gweithwyr gofal iechyd proffesiynol i lywio eu trafodaethau a'u penderfyniadau am feddyginiaethau. Wrth i ni ymdrechu i gefnogi rhagnodwyr i ddarparu'r meddyginiaethau cywir i'r bobl iawn ar yr adeg iawn, rwy'n falch iawn o'r gwaith y mae AWMSG wedi'i gyflawni eleni.

Yn gyntaf, hoffwn ddiolch i dîm Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan am eu rôl yn datblygu Strategaeth AWMSG ar gyfer 2024-2029. Mae hyn yn rhoi sylfaen gadarn i AWMSG i ymateb i'r dirwedd feddyginiaethau newidiol a mynd i'r afael â llawer o'r heriau newydd sy'n ein hwynebu o ran sicrhau canlyniadau gwell o feddyginiaethau i bobl yng Nghymru. Gyda'r cymhlethdod cynyddol o ran darparu meddyginiaethau newydd, mae'n hanfodol bod AWMSG mewn sefyllfa i gydweithio â sefydliadau allweddol ac ymateb yn unol â hynny. Mae sganio'r gorwel yn gywir yn hanfodol ar gyfer cyflwyno a chynllunio ariannol o ran meddyginiaethau newydd. Bydd arloesi mewn gwyddoniaeth, ymchwil a data yn parhau i gefnogi AWMSG yn eu penderfyniadau cadarn, yn seiliedig ar dystiolaeth a bydd mwy o ddata yn y byd go iawn yn gwella gwerthuso meddyginiaethau a gofal iechyd yng Nghymru. Mae'n amserol bod sefydliadau partner yn alinio eu cynlluniau gwaith wrth i ni weithio gyda'n gilydd i sicrhau bod pawb yng Nghymru yn gallu cael y canlyniadau gorau o'u meddyginiaethau.

**...rydym yn ymdrechu i roi anghenion y bobl wrth wraidd ein cenhadaeth...**

Eleni mae AWTTC wedi cynnal nifer o gyfarfodydd sydd wedi rhoi cyfle i'r tîm ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol. Mae'r rhain yn cynnwys cyfarfodydd chwarterol y Grŵp Buddiannau Cleifion a'r Cyhoedd, y sesiynau hyfforddi Dysgu Dros Ginio, y Diwrnod Arfer Gorau a Diwrnod Agored y Diwydiant. Mae pob un ohonynt yn darparu llwyfannau gwerthfawr ar gyfer rhannu a thrafod canllawiau, adnoddau a diweddariadau i brosesau AWMSG ar gyfer optimeiddio meddyginiaethau ac asesiadau meddyginiaeth. Mae'r digwyddiadau hyn yn ganolog i gynnal gweithio tryloyw a chydweithredol ac yn hanfodol wrth i ni edrych ymlaen at gyflawni Strategaeth AWMSG dros y pum mlynedd nesaf.

# Croeso'r Cadeirydd



**Yr Athro Iolo Doull,** Cadeirydd AWMSG



**...rydym yn ymdrechu i gefnogi presgripsiynwyr i ddarparu'r meddyginiaethau cywir i'r bobl gywir ar yr adeg gywir...**

Wrth i ni ymdrechu i wneud anghenion y bobl yn greiddiol i'n cenhadaeth, rwy'n falch iawn o rannu'r gwaith rydym wedi'i wneud mewn partneriaeth ag Anabledd Dysgu Cymru yn datblygu taflenni hawdd eu darllen i gefnogi rhai o'n hadnoddau (gweler tudalen 14). Mae'n bleser adrodd bod AWMSG yn cefnogi'r agenda cynaliadwyedd cenedlaethol ac wedi cymeradwyo'r strategaeth genedlaethol i leihau ôl troed carbon anadlwyr. Edrychaf ymlaen at fonitro cynnydd y gwaith hwn drwy'r dangosfwrdd datgarboneiddio anadlyddion wrth i ni gefnogi'r GIG yng Nghymru i leihau eu hôl troed carbon, gweithio'n fwy cynaliadwy a gwneud Cymru'n lle gwell i fyw ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol (gweler tudalen 17).

Eleni rydym wedi gweithio'n agos gyda'r rhwydwaith anadlol sydd wedi diweddaru canllawiau rhagnodi rheoli asthma oedolion Cymru Gyfan, ac mae AWMSG wedi cymeradwyo canllaw rhagnodi rheoli asthma pediatrig Cymru Gyfan (gweler tudalen 19). Mae'r rhain wedi cael derbyniad da iawn gan ragnodwyr. Gyda dyfodiad Gweithrediaeth GIG Cymru, rwy'n frwd dros feithrin perthynas â'r rhwydweithiau clinigol cenedlaethol fel bod AWMSG yn parhau i gynhyrchu canllawiau ac adnoddau lle mae eu hangen fwyaf. Rwyf hefyd yn angerddol am sicrhau bod AWMSG yn darparu canllawiau cadarn sy'n seiliedig ar dystiolaeth a bod cynllun gwaith AWMSG yn cael ei flaenoriaethu i ddiwallu anghenion pawb yng Nghymru.

Mae ein nodau yn uchelgeisiol, ond rwy'n credu, trwy ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol a gweithio'n agos gyda sefydliadau cenedlaethol, y byddwn yn cyflawni ein nodau. Rwy'n credu ein bod mewn sefyllfa dda i wneud i hyn ddigwydd. Mae cynrychiolaeth ddaearyddol a phroffesiynol eang ar AWMSG a'r is-bwyllgorau. Mae AWMSG yn cynnwys ymgynghorwyr GIG, meddygon teulu, nyrsys, fferyllwyr, economegwyr iechyd, cynrychiolwyr o'r diwydiant fferyllol ac aelodau lleyg sy'n cyfuno eu harbenigedd a'u gwybodaeth i gytuno ar y defnydd gorau o feddyginiaethau.

Yn olaf, hoffwn ddiolch i'n haelodau ymroddedig ar ein holl grwpiau, sydd wedi ein galluogi i ddarparu'r ffrydiau gwaith cyffrous a gwerthfawr hyn. Wrth i ni ddechrau ar flwyddyn gyntaf cyflwyno Strategaeth newydd AWMSG, rwy'n hyderus y byddwn, drwy gydweithio â'n holl randdeiliaid, yn sicrhau bod AWMSG yn parhau i ddarparu cyngor, arweiniad ac adnoddau lle mae eu hangen fwyaf.

# Proffil AWMSG

## Ein gweledigaeth i Gymru – *"Gwella iechyd a lles pobl yng Nghymru drwy alluogi cleifion i gael y canlyniadau gorau o'u meddyginiaethau".*

### Enw:
Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan (AWMSG)

### Cadeirydd:
Yr Athro Iolo Doull

### Sefydlwyd:
2002

### Swydd:
Cynghori Llywodraeth Cymru ar ddatblygiadau strategol ym maes rhagnodi fel yr amlinellir yn Strategaeth Cymru AWMSG: 2024-2029.

### Achrediad:
Mae proses asesu technoleg iechyd AWMSG wedi'i hachredu gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE).

### Is-grwpiau:
Grŵp Meddyginiaethau Newydd (NMG) a Grŵp Cynghori ar Ragnodi Cymru Gyfan (AWPAG), a Grŵp Asesu Meddyginiaethau Cymru'n Un (OWMAG).

### Aelodau:
Yn cynnwys meddygon, nyrsys, fferyllwyr, academyddion, economegwyr iechyd, cynrychiolydd o'r diwydiant fferyllol, gweithiwr proffesiynol sy'n gysylltiedig â meddygaeth, aelodau lleyg a Chyfarwyddwr Cyllid. Gweler Aelodaeth ar gyfer aelodau unigol.

### Sefydliadol:
Mae Pwyllgor Llywio AWMSG yn goruchwylio ac yn arwain mentrau strategol, ac mae Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan (AWTTC) yn darparu cymorth clinigol, gwyddonol, dadansoddol a gweinyddol.

### Cyfarfodydd
Cynhaliwyd 8 cyfarfod yn 2023-2024. Mae'r cyfarfodydd yn agored i'r cyhoedd. Mae cofnodion cyfarfodydd blaenorol a dyddiadau rhai'r dyfodol ar wefan AWTTC.

### Mwy o wybodaeth:
awttc.nhs.wales (Gwefan Saesneg)
cttcg.gig.cymru (Gwefan Gymraeg)
@AWTTCcomms (Cyfrif X Saesneg)
@AWTTCcymraeg (Cyfrif X Cymraeg)
LinkedIn (Cymraeg a Saesneg)

## 2023–2024 mewn rhifau

Cynhaliwyd 8 cyfarfod

2 argymhelliad Cymru'n Un

69 o feddyginiaethau ar y Gronfa Triniaethau Newydd

8 cyhoeddiad optimeiddio meddyginiaethau

1 Meddyginiaeth wedi'i arfarnu a'i argymell

14 Dangosydd Rhagnodi Cenedlaethol wedi eu monitro

# Strategaeth bum mlynedd AWMSG: 2024-2029



Buom yn gweithio drwy gydol 2023–2024 i ddatblygu ein strategaeth bum mlynedd nesaf, gyda chefnogaeth gan AWTTC. Ar ôl trafodaethau helaeth ymhlith ein haelodau, ac yna ymgynghori ag ystod eang o sefydliadau partner ym mis Hydref 2023, gwnaethom gymeradwyo ein strategaeth meddyginiaethau newydd i Gymru yng nghyfarfod Chwefror 2024.

## Creu strategaeth newydd

Roedd sesiynau datblygu cynnar yn canolbwyntio ar adolygu'r weledigaeth, y genhadaeth a'r egwyddorion sy'n sail i'n holl waith, ac yna diffinio'r pedwar uchelgais eang yr oedd aelodau eisiau i'n strategaeth ganolbwyntio arnynt:

1. Helpu pobl yng Nghymru i gael y **canlyniadau** gorau o feddyginiaethau.
2. Galluogi **mynediad** i'r meddyginiaethau cywir ar yr adeg iawn i bobl yng Nghymru.
3. Lleihau niwed sy'n gysylltiedig â meddyginiaethau a gwella **diogelwch** sy'n gysylltiedig â meddyginiaethau ar gyfer pobl yng Nghymru.
4. Gwneud yn fawr o'r **gwerth** y mae GIG Cymru yn ei gyflawni o'i fuddsoddiad mewn meddyginiaethau.

Rydym wedi defnyddio'r pedwar uchelgais hyn drwy gydol yr adroddiad blynyddol hwn i gategoreiddio rhai straeon newyddion nodedig y flwyddyn ddiwethaf.

Gwnaethom hefyd ddefnyddio ein pedwar uchelgais i gytuno ar gyfres o wyth nod ar gyfer y strategaeth bum mlynedd newydd. Yr wyth nod hyn yw:

1. Bod cyngor, adnoddau ac arweiniad yn adlewyrchu blaenoriaethau ac anghenion pobl a gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol yng Nghymru.
2. Bod cyngor, adnoddau ac arweiniad AWMSG yn cael eu lledaenu, eu hyrwyddo'n eang a'u gweithredu'n rheolaidd.
3. Y defnyddir data a thechnoleg i wella gwerth, canlyniadau a diogelwch cleifion.
4. Bod prosesau asesu meddyginiaethau yn drylwyr, yn amserol ac yn sicrhau gwerth.
5. Bod gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol yn derbyn hyfforddiant o ansawdd uchel yn y defnydd diogel ac effeithiol o feddyginiaethau.
6. Bod pobl yng Nghymru yn cymryd eu meddyginiaethau mewn ffordd sy'n manteisio i'r eithaf ar eu canlyniadau iechyd.
7. Bod gwastraff sy'n gysylltiedig â defnyddio meddyginiaethau yn cael ei leihau a bod cynaliadwyedd yn cael ei wella.
8. Bod buddion meddyginiaethau manwl ar sail geneteg yn cael eu gwireddu yng Nghymru.

Cefnogir yr holl nodau hyn yn ein strategaeth, gydag amrywiaeth o amcanion i ni eu cyflawni trwy weithio gyda'n partneriaid. Mae'r strategaeth hefyd yn cynnwys rhai dangosyddion y gellir eu defnyddio i fesur llwyddiant a chynnydd a wnaed dros y pum mlynedd nesaf.

## Y camau nesaf

Rydym eisiau gweld cynnydd sylweddol yn cael ei wneud ar draws ein holl nodau. Byddwn yn cyflawni hyn drwy ymdrech ar y cyd gan ein haelodau i ysgogi a hyrwyddo ein gwaith, a hefyd drwy gydweithio'n agosach gyda'n sefydliadau partner allweddol a enwir drwy gydol y strategaeth hon.

Bydd cydweithio gyda'n partneriaid yn ganolog i gyflawni uchelgeisiau ein strategaeth, a bydd angen i'r cydweithio hwnnw fod o fudd i bob parti. Gofynnir i bob sefydliad partner ein helpu i gyflawni ein huchelgeisiau, ac i ystyried sut y gallwn eu helpu i gyflawni eu gweledigaeth ar gyfer yr hyn y dylai GIG Cymru ei ddarparu ar gyfer cleifion a'r cyhoedd.

Rydym yn annog pawb i ddarllen ein dogfen strategaeth lawn am fwy o wybodaeth, ac i gysylltu â ni drwy AWTTC@wales.nhs.uk os oes gennych unrhyw gwestiynau.

# Ein partneriaid a sut maen nhw'n cymryd rhan



Rydym yn gweithio gyda chleifion a'r cyhoedd, gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a chynrychiolwyr o'r diwydiant fferyllol, yn ogystal â Llywodraeth Cymru a sefydliadau perthnasol yn y DU, i gyhoeddi argymhellion ar feddyginiaethau newydd, a chanllawiau ar wneud y defnydd gorau o feddyginiaethau.




Ein tri phartner allweddol yw: cleifion a'r cyhoedd; gweithwyr gofal iechyd proffesiynol; a'r diwydiant fferyllol. Maent wedi'u hymgorffori ym mhob agwedd ar ein gwaith ac maent yn chwarae rhan hanfodol wrth gyflawni ein nodau a rennir. Mae llawer o ffyrdd y gallant gymryd rhan yn ein gwaith. Dyma rai enghreifftiau.



## Cleifion a'r cyhoedd

- Yn ystod ein hasesiad o feddyginiaethau newydd, rydym yn gofyn i gleifion a'r cyhoedd am eu barn am sut brofiad yw byw gyda'u cyflwr iechyd ac am unrhyw feddyginiaethau y maent yn, neu a oeddent, yn eu cymryd ar ei gyfer. Rydym yn ystyried y safbwyntiau hyn pan fyddwn yn gwneud ein hargymhelliad i Lywodraeth Cymru. Asesiadau meddyginiaeth ar y gweill ar hyn o bryd wedi'u rhestru ar wefan AWTTC.
- Rydym yn cynhyrchu adnoddau i gefnogi'r defnydd diogel a gorau o feddyginiaethau yn GIG Cymru. Rydym yn gofyn i gleifion a'r cyhoedd roi sylwadau ar bob adnodd meddyginiaethau a gynhyrchir. Rydym yn ystyried ac yn mynd i'r afael â phob ymateb cyn i'r adnodd gael ei gwblhau, ei gymeradwyo a'i gyhoeddi. Mae ymgynghoriadau agored cyfredol wedi'u rhestru ar wefan AWTTC.
- Mae ein haelodau lleyg yn aelodau o'r cyhoedd ac yn aelodau pleidleisio llawn. Maent yn rhoi barn annibynnol ac yn tynnu sylw at yr hyn sy'n bwysig i gleifion, a'u teuluoedd a'u gofalwyr, i helpu i lywio penderfyniadau am feddyginiaethau ac adnoddau meddyginiaethau newydd.
- Cynhelir cyfarfodydd Grŵp Buddiannau Cleifion a'r Cyhoedd (PAPIG) bedair gwaith y flwyddyn ac maent yn gyfle i gleifion a'r cyhoedd glywed am ein gwaith, a darganfod sut y gallant gymryd rhan.

# Ein partneriaid a sut maen nhw'n cymryd rhan



## Gweithwyr gofal iechyd proffesiynol

- Mae'r rhan fwyaf o aelodau ein pwyllgor yn gweithio mewn amrywiaeth o broffesiynau gofal iechyd ym mhob rhan o Gymru. Rydym yn annog gweithwyr gofal iechyd proffesiynol i gysylltu â ni os oes ganddynt ddiddordeb mewn dod yn aelod o'r pwyllgor.
- Gall gweithwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n gweithio yng Nghymru gynnig prosiect optimeiddio meddyginiaethau i'w ystyried drwy ein proses gymeradwyo, sy'n cynnwys ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol.
- Gallai unrhyw weithiwr gofal iechyd proffesiynol sy'n gweithio gyda chleifion chwarae rhan sylweddol yn rhoi cyngor arbenigol i ni. Er enghraifft, gofynnwn i weithwyr gofal iechyd proffesiynol wneud sylwadau ar y canllawiau rhagnodi a'r adnoddau optimeiddio meddyginiaethau rydym yn eu cynhyrchu. Mae ymgynghoriadau agored cyfredol wedi'u rhestru ar wefan AWTTC.
- Mae AWTTC yn cynnal Diwrnodau Arfer Gorau i roi cyfle i weithwyr gofal iechyd proffesiynol yng Nghymru rannu mentrau lleol sydd wedi cyflawni canlyniadau cadarnhaol i bobl. Mae AWTTC hefyd yn cynnal Dysgu dros Ginio - cyfres o sesiynau hyfforddi awr o amgylch meysydd therapiwtig, newyddion rhagnodi cenedlaethol a newidiadau mewn ymarfer clinigol.

## Y diwydiant fferyllol

- Mae Fforwm Diwydiant AWTTC yn rhoi cyfle i gynrychiolwyr o'r diwydiant fferyllol gwrdd yn rheolaidd ag AWTTC i siarad am faterion sy'n ymwneud â mynediad at feddyginiaethau yng Nghymru.
- Mae tîm sganio'r gorwel AWTTC yn casglu gwybodaeth am feddyginiaethau newydd, arwyddion (y cyflyrau y maent yn eu trin) a fformwleiddiadau newydd sydd ar y gweill yn fferyllol. UK PharmaScan yw prif ffynhonnell gwybodaeth y tîm ac rydym yn annog cwmnïau i ymgysylltu ag UK PharmaScan.
- Mae'r Tîm Mynediad i Feddyginiaethau Masnachol yn cefnogi a monitro gweithrediad meddyginiaethau a argymhellir gennym ni neu'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE) pan fo'r feddyginiaeth yn gysylltiedig â threfniant masnachol gyda GIG Cymru. Mae ymgysylltu cynnar gan y diwydiant fferyllol yn galluogi'r tîm i sicrhau bod cleifion yn cael mynediad amserol at feddyginiaethau a bod GIG Cymru yn cael gwerth am arian.
- Anogir cwmnïau i gyflwyno meddyginiaeth i ni ei asesu. Ar hyn o bryd mae AWTTC yn adolygu'r prosesau sy'n cefnogi mynediad i feddyginiaethau yng Nghymru.
- Gall cwmnïau fferyllol gymryd rhan mewn ymgynghoriadau am unrhyw adnoddau ar gyfer optimeiddio meddyginiaethau. Caiff pob ymateb ei ystyried a'i drafod cyn i'r adnodd gael ei gwblhau, ei gymeradwyo a'i gyhoeddi. Mae ymgynghoriadau agored cyfredol wedi'u rhestru ar wefan AWTTC.
- Mae Diwrnodau Agored Diwydiant yn rhoi cyfle i'r diwydiant fferyllol gwrdd â chynrychiolwyr o AWMSG ac AWTTC ac i ddysgu mwy am ein gwaith.

# Yr hyn yr ydym wedi'i gyflawni gyda'n gilydd

## Cleifion a'r cyhoedd

**4** cyfarfod PAPIG

25 siaradwr

129 o fynychwyr

12 pwnc

**8** ymgynghoriad optimeiddio meddyginiaethau

15 ymateb gan gleifion a'r cyhoedd

## Y diwydiant fferyllol

**3** chyfarfod Fforwm Diwydiant AWTTC

**8** ymgynghoriad optimeiddio meddyginiaethau

18 o ymatebion o ddiwydiant fferyllol

**43** o feddyginiaethau/ arwyddion newydd ar gyfer asesu posibl

**1** Diwrnod Agored

8 pwnc

15 o siaradwr

51 o fynychwyr

O'r rhai a holwyd:

Roedd 96% yn fodlon â'r Diwrnod

Byddai 100% yn cymryd rhan mewn digwyddiadau yn y dyfodol

# Yr hyn yr ydym wedi'i gyflawni gyda'n gilydd

## Gweithwyr gofal iechyd proffesiynol

Gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ar ein pwyllgorau

**11** AWMSG

**11** NMG

**17** AWPAG

**21** OWMAG

**2** Sesiwn Dysgu dros Ginio

157 o fynychwyr

**8** ymgynghoriad optimeiddio meddyginiaethau ..... 87 sylwadau gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol

**1** Diwrnod Arfer Gorau

92 o fynychwyr

**3** o arbenigwyr clinigol yn ymwneud ag asesiadau technoleg iechyd

**14** arbenigwr clinigol + **9** grŵp arbenigol

sy'n ymwneud â datblygu adnoddau optimeiddio meddyginiaethau

# Ymgysylltu



Mae gwefan AWTTC a'r cyfryngau cymdeithasol yn ffyrdd pwysig o gyfathrebu â'n partneriaid; lledaenu'r gair am yr hyn rydym yn ei wneud.

**207k o ymweliadau ar wahân â'r wefan**

**52k o ddefnyddwyr gwahanol y gwefan**

**294k wedi gweld y dudalen**

**74,553 o argraffiadau trydar**

**175 o ddilynwyr LinkedIn**

Ar ein rhan, mae AWTTC yn trefnu ac yn cymryd rhan mewn digwyddiadau allweddol i addysgu, cyfnewid syniadau, clywed am brofiadau personol, rhwydweithio a lledaenu ymwybyddiaeth am yr hyn yr ydym yn ei wneud. Mae rhai digwyddiadau o'r flwyddyn ddiwethaf wedi'u rhestru isod.

## Digwyddiadau o Ebrill 2023 i Mawrth 2024

### Ebrill 2023

- Canolbwyntiodd cyfarfod Grŵp Buddiannau Cleifion a'r Cyhoedd (PAPIG) ar amlgyffuriaeth. Rhoddodd uwch fferyllwyr o AWTTC, cleifion a gofalwyr, a fferyllwyr clinigol ac ymgynghorol gyflwyniadau neu arwain trafodaethau agored ar heriau, rheolaeth a sgil-effeithiau, cymryd meddyginiaethau lluosog.
- Mynychodd staff AWTTC Gyngres Flynyddol Cymdeithas Tocsicoleg Prydain yn Birmingham, gan gyflwyno symposiwm, prif araith a dau boster cynhadledd.

### Mai 2023

- Aeth AWTTC i Eisteddfod yr Urdd yn Llanymddyfri i reoli stondin ar 'Helpu i wneud meddyginiaethau'n fwy diogel'. Roedd ymwelwyr â'r stondin yn awyddus i glywed am ein gwaith yn cefnogi'r defnydd gorau a diogel o feddyginiaethau yn GIG Cymru, a sut y gall aelodau o'r cyhoedd a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol gymryd rhan.




- Roedd sesiwn hyfforddiant Dysgu dros Ginio AWTTC ar gyfer gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn cynnwys cyflwyniadau gan fferyllwyr clinigol am reoli clefydau cronig mewn practis

# Ymgysylltu



cyffredinol, a chanllawiau ac archwiliadau gwrthficrobaidd gofal sylfaenol.

- Mynychodd staff AWTTC 43ain Cyngres Ryngwladol Cymdeithas Ewropeaidd Canolfannau Gwenwynau a Tocsicolegwyr Clinigol yn Sbaen, gan roi dau gyflwyniad llafar a chyflwyno pedwar poster.

## Mehefin 2023

- Mynychodd staff AWTTC gynhadledd MediWales Connects yng Nghaerdydd lle cyflwynodd uwch fferyllwyr rywfaint o'r gwaith a wnaed gan AWTTC ac AWMSG, a rhannu syniadau ar gyfer cydweithio â'r cymunedau iechyd a gofal.



- Cynhaliodd AWTTC a Chanolfan Cerdyn Melyn (CCM) Cymru y Diwrnod Diogelwch Meddyginiaethau ar y cyd i ddathlu 40 mlwyddiant CCM Cymru. Roedd y rhaglen yn cynnwys cystadleuaeth poster, stondinau gwybodaeth, ac amrywiaeth o gyflwyniadau: beth sy'n digwydd i'ch Cerdyn Melyn; dyfodol gwyliadwriaeth ffarmacolegol; a dyfeisiau meddygol.




## Gorffennaf 2023

- Cynhaliodd AWTTC eu Diwrnod Arfer Gorau ym mis Gorffennaf. Roedd y rhaglen yn ymdrin ag amrywiaeth o bynciau ac yn cynnwys pum cyflwyniad yn ystod y bore, a sesiynau trafod yn y prynhawn a gynhaliwyd gan bob un o fyrddau iechyd Cymru.
- Roedd cyfarfod Gorffennaf o PAPIG yn cynnwys sgyrsiau ar y ffordd i roi'r gorau i wrthiselyddion yn ddiogel, llinell gymorth meddyginiaethau i gleifion, a gwneud gwybodaeth i gleifion yn hygyrch a chynhwysol. Tynnodd AWTTC sylw hefyd at ein taflen hawdd ei darllen ar tramadol a rhoddodd y wybodaeth ddiweddaraf am ragnodi mewnanadlwyr.

## Awst 2023

- Mynychodd staff AWTTC y 10fed Cyfarfod Rhyngwladol Gwenwynau a Thocsinoleg yn Rhydychen, a chyflwynwyd pedwar poster i gynulleidfa amrywiol o bob cwr o'r byd. Rhoddodd y cyfarfod gyfle i rwydweithio gyda'r gymuned thocsinoleg ryngwladol.



# Ymgysylltu



## Medi 2023

- Dangosodd AWTTC ei waith yng Nghynhadledd Comisiwn Bevan 2023 yng Nghasnewydd. Teitl y gynhadledd oedd 'The tipping point: where next for health and care?' Tynnodd staff sylw at ein gwaith a thrafodwyd y cydweithio rhwng AWTTC a diwydiant gyda siaradwyr rhyngwladol blaenllaw.




## Hydref 2023

- Cyfarfu PAPIG ym mis Hydref gyda chyflwyniadau a thrafodaethau agored ynghylch heintiau *Clostridioides difficile* (*C. difficile*) yng Nghymru, diogelwch meddyginiaethau llysieuol, a'n strategaeth bum mlynedd newydd.

## Tachwedd 2023

- Cynhaliodd AWTTC Ddiwrnod Agored ar gyfer rhanddeiliaid y diwydiant fferyllol, gyda'r Uned Gwerth Meddyginiaethau (MVU) fel siaradwyr gwadd. Roedd rhaglen y dydd yn cynnwys sgyrsiau am yr ymgysylltu effeithiol rhwng rhanddeiliaid, y dirwedd mynediad i feddyginiaethau sy'n newid yng Nghymru, gwerth cynnwys diwydiant yn ein gwaith, a throsolwg o'r ffordd y mae'r MVU yn gobeithio cefnogi GIG Cymru i sicrhau'r gwerth a'r canlyniadau gorau posibl o feddyginiaethau.




## Chwefror 2024

- Yn ystod sesiwn hyfforddiant cyntaf Dysgu Dros Ginio 2024, cafwyd cyflwyniadau gan arbenigwyr blaenllaw ar reolaeth endocrin anghydweddiad rhywedd mewn oedolion, gan gynnwys amlinelliad o'n canllawiau rhagnodi, a data ymwrthedd gwrthficrobaidd o ddau adroddiad cenedlaethol. Roedd uwch fferyllwyr hefyd yn rhannu awgrymiadau practis cyffredinol ar ragnodi ar gyfer heintiau'r llwybr wrinol.
- Canolbwyntiodd cyfarfod Chwefror PAPIG ar ddiabetes math 2 gyda sgyrsiau gan arbenigwyr yn y maes am reoli, trin, atal a lleddfu diabetes math 2. Rhoddodd Cadeirydd grŵp Diabetes UK Caerdydd a'r Fro eu persbectif fel rhywun sy'n byw gyda diabetes.



# Cael y canlyniadau gorau o feddyginiaethau





**Un uchelgais gennym yw i helpu pobl yng Nghymru i gael y cyfle gorau i wireddu'r manteision a fwriadwyd wrth gymryd y meddyginiaethau a ragnodwyd iddynt, a dylid cefnogi'r claf ei hun a'i rhagnodwr i wireddu hynny. Lle y bo'n briodol, dylai hyn gynnwys dad-ragnodi meddyginiaeth pan fo risg yn gorbwyso'r budd. Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi gweithio gydag AWTTC a'n partneriaid ar amrywiaeth o brosiectau sydd wedi helpu i wireddu'r uchelgais hwn.**

## Sut rydym yn cefnogi cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

Mae AWTTC wedi gweithio gyda thîm Tegwch a Chynhwysiant Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro i ddatblygu asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb ac iechyd AWTTC ei hun ar gyfer pob adnodd y gofynnir i ni ei gymeradwyo. Bydd hyn yn ein helpu i sicrhau ein bod yn ystyried anghenion a chanlyniadau holl bobl Cymru. Yn 2023, sefydlodd AWTTC Grŵp Cydraddoldeb gyda'r nod o gefnogi cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant o fewn y sefydliad.

## Fersiynau hawdd eu darllen o'n taflenni gwybodaeth i gleifion

Mewn partneriaeth ag Anabledd Dysgu Cymru, datblygodd AWTTC daflen hawdd ei darllen ar tramadol ar gyfer rheoli poen i gyd-fynd ag adnoddau addysgol tramadol. Mae ffformatau hawdd eu darllen yn darparu fersiwn fwy hygyrch o ddogfen dechnegol, ac yn helpu pobl i ddeall yn well y ffordd orau o ddefnyddio'r feddyginiaeth a roddwyd iddynt.




## Cyhoeddi Fformiwlâu Gwasanaeth Anhwylderau Cyffredin diweddaraf Cymru Gyfan

Nod y Fformiwlâu Gwasanaeth Anhwylderau Cyffredin yw gwella mynediad cleifion at gyngor cyson, sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer rheoli anhwylderau cyffredin, o acne i ddafadennau a ferwcau. Cyhoeddwyd y fersiwn diweddaraf ym mis Awst 2023.

## Arfer gorau yn rheoli asthma

Nod y Canllaw rheoli a rhagnodi asthma i oedolion Cymru gyfan a gyhoeddwyd gyntaf yn 2020 yw lleihau amrywiaeth o ran rhagnodi anadlyddion i reoli asthma mewn oedolion. Yn 2024 diweddarwyd y ddogfen i gynnwys 'cyfundrefn a ffefrir' newydd ar gyfer asthma ysgafn, ac ychwanegodd opsiwn i ddefnyddio rhai meddyginiaethau asthma mewn ffordd ddidrwydded.

Mae'r Canllaw rheoli a rhagnodi asthma pediatrig Cymru gyfan yn darparu dull cenedlaethol, safonol, mwy diogel a chynaliadwy o ofal asthma mewn plant. Mae'n nodi llwybr cleifion Cymru, gan nodi'n glir opsiynau rheoli ar gyfer pob lleoliad gofal iechyd, trothwyon atgyfeirio a dewisiadau meddyginiaeth cenedlaethol.

# Galluogi mynediad at feddyginiaethau

**Mae gennym uchelgais i alluogi mynediad i'r meddyginiaethau cywir ar yr adeg iawn i bobl yng Nghymru. Mae'n ofynnol i feddyginiaethau sy'n glinigol ac yn gost-effeithiol fod ar gael fel opsiwn i bob person sydd angen triniaeth. Dylid gwneud penderfyniadau ar argaeledd meddyginiaethau ar sail 'unwaith i Gymru' lle y bo hynny'n briodol er mwyn osgoi dyblygu ymdrech ar draws y gwasanaeth. Yn ystod 2023–2024, buom yn gweithio gydag AWTTC ar amrywiaeth o brosiectau i helpu i gyflawni'r uchelgais hwn.**

## Adolygiad o brosesau i gefnogi mynediad i feddyginiaethau yng Nghymru

Ar hyn o bryd mae AWTTC yn adolygu ein prosesau i gefnogi mynediad i feddyginiaethau yng Nghymru. Wrth i'r maes mynediad i feddyginiaethau ledled y DU newid, rydym yn addasu ein prosesau i sicrhau bod llwybrau mynediad at feddyginiaethau yng Nghymru yn diwallu anghenion cleifion, gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a GIG Cymru. Gweler Mynediad at feddyginiaethau am fwy o fanylion.

## Diweddariadau i ddulliau a phrosesau asesu technoleg iechyd (HTA)

Rydym wedi gwneud newidiadau allweddol i'n dulliau a'n prosesau HTA ar ôl adolygiad yn 2022 i sicrhau cysondeb â methodoleg y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE), ac i alluogi mynediad teg at feddyginiaethau yng Nghymru. Fe wnaethom hefyd gyflwyno polisi newydd ar gyfer arfarnu meddyginiaethau ar gyfer cyflyrau difrifol, a gwnaethom newidiadau i'r polisi ar gyfer arfarnu meddyginiaethau a ddatblygwyd yn benodol i drin afiechydon prin iawn.

## Newidiadau i'r broses arfarnu ar gyfer estyniadau trwydded bediatreg (PLEs)

Yn dilyn adolygiad o'r broses arfarnu PLE, cytunwyd na fyddai angen AWMSG mwyach i adolygu meddyginiaeth gyda PLE fel mater o drefn lle ceir cyngor HTA cyfatebol yn y boblogaeth oedolion. Yn hytrach, byddai disgwyl y bydd byrddau iechyd yn eu hychwanegu at eu fformiwlâu fel mater o drefn. Croesawyd y dull hwn gan Gymdeithas Diwydiant Fferyllol Prydain (Cymru) a Choleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant.

## Cydweithrediad HTA Rhyngwladol

Mae AWTTC yn parhau i fod yn rhan o ehangu cydweithrediad HTA rhyngwladol. Mae AWTTC yn cydweithio â chydweithwyr o asiantaethau HTA yn y DU, Awstralia, Seland Newydd a Chanada i rannu a datblygu dulliau newydd o ymdrin â HTA.

## GIG Cymru yw'r cyntaf i gymeradwyo mynediad arferol i dostarlimab ar gyfer canser y rectwm

Gall cleifion yn GIG Cymru sydd â math penodol o ganser y rectwm bellach gael meddyginiaeth a allai atal yr angen am lawdriniaeth fewnwthiol sy'n newid bywyd. Fe wnaethom gymeradwyo Penderfyniad Meddyginiaethau Cymru'n Un i gymeradwyo mynediad i dostarlimab (Jemperli®) i drin canserau'r rectwm sydd wedi datblygu'n lleol gyda mwtaniad genetig penodol. Cadarnhaodd Llywodraeth Cymru y penderfyniad hwn ym mis Awst 2023.

## Tîm sganio'r Gorwel yn cryfhau cysylltiadau â sefydliadau allweddol

Mae tîm sganio'r gorwel AWTTC yn darparu adnoddau i helpu gyda chynllunio gwasanaeth ac ariannol. Yn 2023, gweithiodd y tîm gyda phartneriaid allweddol i ddatblygu eu prosesau i gefnogi sganio'r gorwel meddyginiaethau gwrth-ganser. Trwy gydweithio â sefydliadau allweddol bydd AWTTC yn ymdrechu i sefydlu dull 'Cymru Gyfan' cydlynol o sganio'r gorwel. Gallwch ddarllen mwy am sganio'r gorwel yn yr adroddiad hwn.

# Diogelwch sy'n gysylltiedig â meddyginiaethau



**Uchelgais arall yw lleihau niwed sy'n gysylltiedig â meddyginiaethau a gwella diogelwch sy'n gysylltiedig â meddyginiaethau ar gyfer pobl yng Nghymru. Nod lleihau niwed sy'n gysylltiedig â meddyginiaethau y gellir ei osgoi yw lleihau'r risg sy'n gysylltiedig â rhagnodi, cyflenwi, monitro a chymryd meddyginiaeth. Pan fydd digwyddiad niweidiol yn digwydd, dylai systemau cadarn fod ar waith ar gyfer adrodd. Rydym wedi gweithio gydag AWTTC a'n partneriaid ar amrywiaeth o brosiectau sydd wedi helpu i wireddu'r uchelgais hwn.**

## Cefnogi'r defnydd diogel o feddyginiaethau

Bob blwyddyn rydym yn cefnogi datblygu a chymeradwyo amrywiaeth o adnoddau optimeiddio meddyginiaethau, ac mae llawer o'r adnoddau hyn yn cyfrannu at wella'r defnydd diogel o feddyginiaethau.

Gallwch ddarllen mwy am yr adnoddau a gyhoeddwyd yn 2023–2024 yn yr adroddiad hwn, gan gynnwys 'Polisi Cymru Gyfan ar gyfer Gweinyddu, Cofnodi, Adolygu, Storio a Gwaredu Meddyginiaethau (MARRS)' a'r 'Protocol Cymru Gyfan ar gyfer rhagnodi meddyginiaeth gwrthseicotig yn briodol ar gyfer pobl sy'n byw gyda dementia'.



Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan
All Wales Medicines Strategy Group

The All Wales Policy for Medicines Administration, Recording, Review, Storage and Disposal (MARRS)

April 2024

The All Wales Policy for Medicines Administration, Recording, Review, Storage and Disposal (MARRS)

Appendix 1: Time-Critical Medicines, delayed medication administration timeframes (continued next page)

| Timeframe for time-critical medicines | Medicine examples | | |
|---|---|---|---|
| Give immediately | • Resuscitation medicines e.g. adenosine, adrenaline, atropine, noradrenaline, IV fluids<br>• Antidotes and reversal agents e.g. flumazenil, naloxone, vitamin K, prothrombin complex<br>• Stat doses and medicines for emergency situations | | |
| | Acute alcohol withdrawal e.g. diazepam, chlordiazepoxide | Antithrombotics and anticoagulants acute VTE, stroke, ACS e.g. heparin, enoxaparin, dalteparin, alteplase, abciximab, aspirin, clopidogrel | Hypertensive crisis e.g. IV labetalol, glyceryl trinitrate |
| | Acute arrhythmias e.g. IV adenosine, amiodarone, digoxin, magnesium | Bradycardia e.g. IV atropine etc. | Hypoglycaemia treatment e.g. glucose, glucagon |
| | Acute GI bleed e.g. IV omeprazole, terlipressin | Bronchodilators e.g. nebulised salbutamol and/or ipratropium | Neuroleptic malignant syndrome e.g. dantrolene |
| | Adrenal crisis e.g. IV hydrocortisone | Diabetic ketoacidosis e.g. insulin | Sepsis e.g. antibiotics |
| | Anaphylaxis treatment e.g. adrenaline, hydrocortisone, chlorphenamine | Electrolyte disturbances (severe) e.g. IV potassium, calcium, magnesium, phosphate etc. | Status epilepticus management e.g. IV phenytoin, buccal midazolam, rectal diazepam |
| | Antifibrinolytics in acute haemorrhage e.g. IV tranexamic acid | Fluid overload e.g. IV furosemide | Thyrotoxicosis e.g. IV propranolol, hydrocortisone |
| Give within 15 minutes of prescribed time | • Anti-parkinsonian medicines e.g. co-beneldopa (Madopar®), co-careldopa (Sinemet®), rotigotine, entacapone<br>• Insulin (rapid acting or intermediate/biphasic) – within 15 minutes of meals. | | |

Page 15 of 16



Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan
All Wales Medicines Strategy Group

All Wales protocol for the appropriate prescribing of antipsychotics for people living with dementia

February 2024

All Wales Medicines Strategy Group

Appendix 3: Antipsychotic Prescription Flow Chart

Antipsychotic Prescription Flow Chart

STEP 1: Assess

STEP 2: Initiate

STEP 3: Review

STEP 4: Discontinue

22

## Fersiynau hawdd eu darllen o'n taflenni gwybodaeth i gleifion

Yn ogystal â'r daflen hawdd ei darllen ar tramadol, cyhoeddwyd taflen hawdd ei darllen yn ymwneud â deall meddyginiaethau heb drwydded yn 2023. Mae'r adnodd yn darparu canllawiau ar gyfer gwella rheolaeth a defnydd diogel o feddyginiaethau 'arbennig' ac oddi ar y label heb drwydded ym mhob sector o ofal iechyd yn GIG Cymru. Mae'r fformat hawdd ei ddarllen yn rhoi fersiwn fwy hygyrch i bobl ag anableddau dysgu o'r ddogfen dechnegol.



Hawdd ei Deall

Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan
All Wales Medicines Strategy Group

Meddyginiaethau didrwydded ac 'all-drwydded'

Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Ganolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan** a **Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Defnyddio "arbennig" didrwydded a meddyginiaethau all-label**'.

Hydref 2023

**Rydych chi wedi cael y daflen hon oherwydd bod rhywun wedi rhagnodi meddyginiaeth heb drwydded i chi, neu feddyginiaeth sy'n cael ei defnyddio mewn ffordd wahanol i'r hyn y mae'n ddweud yn y drwydded.**

Fel arfer, mae gan feddyginiaeth sy'n cael ei gwerthu yn y DU **drwydded**. Mae'r **drwydded** yn dweud sut y dylai'r feddyginiaeth gael ei defnyddio.

Er enghraifft, bydd y **drwydded** yn dweud:

1. Pwy sy'n gallu cymryd y feddyginiaeth.

2. Beth sy'n gallu cael ei drin gan y feddyginiaeth.

# Optimeiddio gwerth



**Uchelgais i ni yw optimeiddio'r gwerth y mae GIG Cymru yn ei gyflawni o'i fuddsoddiad mewn meddyginiaethau. O ystyried adnoddau cyfyngedig GIG Cymru, dylai pob penderfyniad, cyngor ac arweiniad yr ydym yn ei gyhoeddi fod ag ystyriaethau gwerth yn greiddiol iddynt. Mae 'Cymru Iachach' Llywodraeth Cymru yn diffinio gwerth uwch fel 'sicrhau gwell canlyniadau a gwell profiad i bobl am gost is.' Rydym wedi gweithio gydag AWTTC ar amrywiaeth o brosiectau i helpu i gyflawni'r uchelgais hwn.**

## Ymrwymiad i gynaliadwyedd

Yn ogystal â sicrhau canlyniadau gwell am gost is, mae optimeiddio gwerth yn ystyried cynaliadwyedd a sut mae meddyginiaeth yn effeithio ar ein hamgylchedd. Rydym wedi ymrwymo i addewid cynaliadwyedd ac wedi cymryd camau lleol a chenedlaethol i helpu i leihau ôl troed carbon GIG Cymru, i weithio'n fwy cynaliadwy, ac i wneud Cymru'n lle gwell i fyw ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol. Yn 2023, fe wnaethom gymeradwyo strategaeth genedlaethol i leihau ôl troed carbon anadlyddion yng Nghymru, sy'n amlinellu camau allweddol i'r GIG eu dilyn. Datblygwyd dangosfwrdd datgarboneiddio hefyd i ddangos ôl troed carbon y defnydd o anadlyddion a roddwyd mewn gofal sylfaenol yng Nghymru.




## Tynnu contract cenedlaethol desflurane yn ôl yng Nghymru

Mae desflurane yn nwy anesthetig sydd ag ôl troed carbon uchel, sy'n niweidiol i'r amgylchedd, ac nid oes ganddo fudd clinigol o'i gymharu â dewisiadau amgen.. Rydym yn cefnogi tynnu desflurane yn ôl yn ysbytai Cymru, gan helpu GIG Cymru i gyrraedd ei darged o sero net erbyn 2030 ac yn unol â Chynllun Cyflawni Strategol Datgarboneiddio GIG Cymru.

## Dangosfyrddau ar effeithlonrwydd

Eleni mae cyfres o ddangosfyrddau monitro data newydd wedi'u hychwanegu at y Gweinydd ar gyfer Adrodd a Dadansoddi Gwybodaeth Rhagnodi (SPIRA) i helpu i gefnogi byrddau iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG i wneud gwelliannau effeithlonrwydd yn y defnydd o feddyginiaethau.



# **Optimeiddio meddyginiaethau**
# Canllawiau ac adnoddau rhagnodi

**Mae optimeiddio meddyginiaethau yn canolbwyntio ar gleifion a chanlyniadau yn hytrach na phrosesau a systemau. Ei nod yw cynorthwyo gweithwyr gofal iechyd proffesiynol i gynghori cleifion sut y gallant gael y canlyniadau gorau o'u meddyginiaethau. Gall hyn olygu atal rhai meddyginiaethau neu ddechrau eraill, i sicrhau bod claf yn cymryd y feddyginiaeth fwyaf diogel trin ei gyflwr. Bydd gweithwyr gofal iechyd proffesiynol hefyd yn cynghori cleifion ar y ffordd orau o barhau â thriniaeth. Er mwyn helpu cleifion a rhagnodwyr i gael y canlyniadau gorau o feddyginiaethau, rydym yn cyhoeddi canllawiau ac adnoddau rhagnodi, yn ogystal ag adroddiadau ar berfformiad rhagnodi.**

Fe wnaethom gyhoeddi ystod o ganllawiau ac adnoddau rhagnodi rhwng mis Ebrill 2023 a mis Mawrth 2024.

## Deall meddyginiaethau didrwydded

Diben y ddogfen hon yw darparu canllawiau ar gyfer gwella rheolaeth meddyginiaethau 'arbennig' ac oddi ar y label heb drwydded ym mhob sector o ofal iechyd yn GIG Cymru. Mae'r canllawiau hyn yn cwmpasu gofal sylfaenol (practis cyffredinol a fferyllfa







gymunedol), gofal eilaidd, a chleifion a gofalwyr.

## Canllaw rheoli a rhagnodi asthma pediatrig Cymru Gyfan

Mae'r canllaw hwn yn darparu dull cenedlaethol, safonol, mwy diogel a chynaliadwy o ofalu am asthma mewn plant. Mae'n nodi llwybr cleifion Cymru, gan nodi'n glir opsiynau rheoli ar gyfer pob lleoliad gofal iechyd, trothwyon atgyfeirio a dewisiadau meddyginiaeth cenedlaethol.

## Cyhoeddi Fformiwlâu Gwasanaeth Anhwylderau Cyffredin Cymru Gyfan

Nod y Gwasanaeth Anhwylderau Cyffredin yw gwella mynediad cleifion at gyngor cyson, sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer rheoli anhwylderau cyffredin. Mae'r ddogfen hon yn cynnwys monograffau ar gyfer y 26 anhwylder sydd wedi eu cynnwys gan y gwasanaeth.

## Protocol Cymru Gyfan ar gyfer rhagnodi cyffuriau gwrthseicotig yn briodol ar gyfer pobl sy'n byw gyda dementia

Nod y ddogfen hon yw arwain arfer gorau

# Canllawiau ac adnoddau rhagnodi

wrth gychwyn, monitro, adolygu, iselhau'n raddol a stopio cyffuriau gwrthseicotig pan gânt eu rhagnodi ar gyfer pobl sy'n byw gyda dementia sy'n mynegi trallod. Mae hefyd yn cynghori ymarferwyr cyffredinol ac arbenigwyr ar reoli rhagnodi hirdymor cyffuriau gwrthseicotig lle nodir hynny.

## Canllaw rheoli a rhagnodi Cymru gyfan ar gyfer asthma mewn oedolion




Nod y canllaw hwn, a gyhoeddwyd gyntaf yn 2020, yw lleihau amrywiaeth o ran rhagnodi anadlyddion i reoli asthma mewn oedolion. Cafodd ei ddiweddaru yn 2021 i annog ystyried agenda ddatgarboneiddio GIG Cymru. Yn 2024 diweddarwyd y ddogfen i gynnwys 'cyfundrefn a ffefrir' newydd ar gyfer asthma ysgafn, ac ychwanegodd opsiwn i ddefnyddio rhai meddyginiaethau asthma mewn ffordd ddidrwydded.

## Polisi Cymru Gyfan ar gyfer Gweinyddu, Cofnodi, Adolygu, Storio a Gwaredu Meddyginiaethau (MARRS)

Mae polisi MARRS yn nodi'r safonau ymarfer gofynnol y mae'n rhaid eu mabwysiadu gan yr holl staff gofal iechyd sy'n ymwneud â gweinyddu, cofnodi, adolygu, storio a gwaredu meddyginiaethau mewn sefydliadau gofal iechyd ledled Cymru. Bydd gweithredu'r safonau hyn yn cefnogi'r gwaith o ddarparu gofal o ansawdd uchel ac yn diogelu diogelwch cleifion trwy sicrhau cysondeb yn yr arfer o reoli meddyginiaethau ar draws pob sector gofal iechyd yng Nghymru.

## Diweddariadau i adnoddau

Gwnaed mân ddiweddariadau i'r adnoddau isod rhwng Ebrill 2023 a Mawrth 2024.

- Canllawiau gwrthficrobaidd gofal sylfaenol
- Rheolaeth endocrin o anghyfathiant rhywedd mewn oedolion: canllawiau rhagnodi ar gyfer ymarferwyr anarbenigol
- Canllaw rheoli a rhagnodi clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint (COPD) Cymru gyfan



# Strategaethau a chydnabyddiaethau



## Strategaethau

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gwnaethom gymeradwyo rhai dogfennau strategol gyda ffocws ar leihau effaith amgylcheddol meddyginiaethau yng Nghymru. Roedd y rhain yn cynnwys:

### Datgarboneiddio: rhagnodi, defnyddio a gwaredu anadlyddion 2023–2030. Strategaeth genedlaethol i Gymru

Mae'r ddogfen hon yn nodi strategaeth genedlaethol i leihau ôl troed carbon anadlyddion yng Nghymru, ac yn amlinellu'r camau allweddol i'r GIG a'i bartneriaid yng Nghymru i: leihau gorddibyniaeth ar anadlwyr lliniaru; lleihau'r defnydd o anadlyddion sydd â photensial cynhesu byd-eang uchel; a sicrhau bod anadlyddion yn cael eu gwaredu'n gyfrifol.

### Tynnu contract cenedlaethol desflurane yn ôl yng Nghymru

Nod y strategaeth hon yw atal pob defnydd o'r nwy anesthetig desflurane mewn ysbytai yng Nghymru oherwydd ei effaith amgylcheddol ormodol, cost uchel, a diffyg budd clinigol o'i gymharu â dewisiadau amgen sydd ar gael yn fwy diweddar.




## Adnoddau cydnabyddedig

Nod ein proses gydnabod yw tynnu sylw at adnoddau, mentrau neu ymgyrchoedd sydd eisoes yn cael eu cydnabod neu eu cymeradwyo gan gorff neu sefydliad cenedlaethol ac sydd wedi'u gweithredu neu eu derbyn fel arfer da yng Nghymru. Rhwng mis Ebrill 2023 a mis Mawrth 2024, gwnaethom gydnabod y canlynol:

- Canllaw ar gyfer rheoli hydradu yn ystod therapi gwrth-ganser systemig sy'n cynnwys cisplatin (Rhwydwaith Clinigol Strategol Cenedlaethol ar gyfer Canser)
- Proffil Adwaith Andwyol i Gyffuriau (ADRe) (Prifysgol Abertawe)

Mae pob un o'r adnoddau cydnabyddedig ar gael ar wefan AWTTC.

# Dangosyddion Rhagnodi Cenedlaethol

Rydym yn monitro ac yn dadansoddi data rhagnodi er mwyn meincnodi perfformiad ac ysgogi gwelliannau yn GIG Cymru.

## Dangosyddion Rhagnodi Cenedlaethol

Defnyddir Dangosyddion Rhagnodi Cenedlaethol (NPIs) i dynnu sylw at flaenoriaethau therapiwtig ar gyfer GIG Cymru a chymharu'r ffyrdd y mae rhagnodwyr a sefydliadau gwahanol yn defnyddio meddyginiaethau neu grwpiau o feddyginiaethau penodol. Mae NPIs yn seiliedig ar dystiolaeth, yn glir, yn hawdd eu deall, ac yn caniatáu i fyrddau iechyd, clystyrau gofal sylfaenol, practisau meddygon teulu a rhagnodwyr i gymharu arferion cyfredol â safon ansawdd y cytunwyd arni.

## Dangosyddion Rhagnodi Cenedlaethol 2022-2025

Mae'r 14 NPI ar gyfer 2022–2025, wedi'u cymeradwyo gennym ni, yn canolbwyntio ar bedwar maes blaenoriaeth a gefnogir gan barthau diogelwch ac effeithlonrwydd.

**Meysydd Blaenoriaeth**

Poenladdwyr

Gwrthgeulyddion i drin ffibriliad atrïaidd

Stiwardiaeth wrthficrobaidd

Datgarboneiddio anadlwyrs

**Parthau ategol**

| Diogelwch | Effeithlonrwydd |
|---|---|
| Dangosyddion diogelwch rhagnodi | Meddyginiaethau biolegol gwerth gorau |
| Hypnotigion a chyffuriau lleihau gorbryder | Gwerth isel am rhagnodi |
| Cardiau Melyn | |

## Monitro Dangosyddion Rhagnodi Cenedlaethol

Mae AWTTC yn cyhoeddi adroddiad chwarterol sy'n dadansoddi perfformiad pob bwrdd iechyd yn erbyn y set bresennol o NPIs.

Mae'r Gweinydd ar gyfer Adrodd a Dadansoddi Gwybodaeth Rhagnodi (SPIRA) yn cael ei ddiweddaru bob chwarter gyda data NPI ar gyfer byrddau iechyd, clystyrau a phractisau meddygon teulu unigol yng Nghymru, sy'n rhoi golwg fanylach ar ragnodi lleol. Gall defnyddwyr ar Rwydwaith GIG Cymru ddefnyddio'r dangosfyrddau rhyngweithiol hyn i ddadansoddi data rhagnodi yn gymharol. Mae SPIRA hefyd yn cynnwys data ychwanegol, fel dangosfwrdd datgarboneiddio anadlyddion AWTTC ac amrywiaeth o ddangosfyrddau 'Effeithlonrwydd'.



# Mynediad at feddyginiaethau

## Sganio'r gorwel

Mae tîm sganio'r gorwel AWTTC yn casglu gwybodaeth am feddyginiaethau a chynhyrchion meddyginiaethol therapi uwch (ATMPs) sy'n cael eu datblygu er mwyn cefnogi'r gwaith cynllunio a'r gweithredu sydd angen ei wneud ar gyfer y meddyginiaethau hyn gan fyrddau iechyd/ymddiriedolaethau yng Nghymru. Rhan allweddol o'r gwaith hwn yw monitro meddyginiaethau ar raglen waith y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE). Maes newydd a phwysig y mae'r tîm bellach hefyd yn ei fonitro yw meddyginiaethau sy'n cael eu datblygu gyda'r potensial i fod yn gysylltiedig â phrawf diagnostig ategol.

Mae partneriaid allweddol y tîm sganio'r gorwel yn cynnwys Grŵp Oncoleg Genomeg Cymru Gyfan (AWGOG), Gwasanaeth Genomeg Feddygol Cymru Gyfan (AWMGS), Cydbwyllgor Comisiynu (JCC), Rhaglen Batholeg Genedlaethol, Grŵp Pharmacogenomig Cenedlaethol, Gwasanaeth Gwaed Cymru, Therapïau Uwch Cymru a Grŵp Therapïau Gwrth-Ganser Systemig Rhwydwaith Canser Cymru. Y tu allan i Gymru, mae'r tîm yn cymryd rhan mewn nifer o fentrau sganio'r gorwel ledled y DU. Trwy'r cysylltiadau sefydledig hyn a'r gwaith cydweithredol parhaus mae AWTTC mewn sefyllfa dda i ddatblygu eu rôl ymhellach fel canolfan Cymru Gyfan ar gyfer sganio'r gorwel.



**2 adroddiadau ATMP**



**4 cyfarfod gyda'r rhwydwaith canser**



**1 adroddiad prawf biofarciwr cydymaith**



**7 diweddariad sganio'r gorwel**



# Llwybrau mynediad



Nod Llywodraeth Cymru yw sicrhau bod cleifion yng Nghymru yn cael mynediad cyflym a theg at feddyginiaethau. Y prif lwybrau mynediad i feddyginiaethau yng Nghymru yw:

- Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE) neu asesu technoleg Iechyd (HTA) AWMSG;
- Proses Meddyginiaethau Cymru'n Un (a elwid gynt yn broses Comisiynu Dros Dro Cymru'n Un);
- Ceisiadau Cyllido Cleifion Unigol (IPFR); a
- ceisiadau unigol gan y bwrdd iechyd.

## Asesu technoleg iechyd

HTA yw'r safon aur ar gyfer gwerthuso effeithiolrwydd clinigol ac effeithiolrwydd cost meddyginiaeth. Mae meddyginiaethau newydd yn cael eu hasesu i ystyried:

- pa mor dda maen nhw'n gweithio yn y byd go iawn (effeithiolrwydd clinigol);
- pa mor gost-effeithiol ydyn nhw; a
- pha gleifion fyddai'n elwa fwyaf arnynt.

Mae canllawiau HTA NICE yn berthnasol yng Nghymru a Lloegr. Ers 2002, rydym wedi asesu meddyginiaethau nad ydynt wedi'u cynnwys yn rhaglen waith NICE. Mae ein hargymhellion yn cael eu cadarnhau gan Lywodraeth Cymru a'u cyhoeddi fel 'cyngor AWMSG'.

Mae'r Gronfa Triniaethau Newydd, a lansiwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2017, yn sicrhau bod cleifion ledled Cymru yn cael mynediad cyflymach at feddyginiaethau newydd. Disgwylir i fyrddau iechyd sicrhau bod meddyginiaethau ar gael i'w rhagnodi i gleifion o fewn 60 diwrnod ar ôl i NICE gyhoeddi Penderfyniad Gwerthuso Terfynol (neu Ganllawiau Drafft Terfynol neu Benderfyniad Gwerthuso Terfynol) neu o fewn 60 diwrnod i Lywodraeth Cymru'n cadarnhau ein cyngor.

Er mwyn monitro cydymffurfiaeth â'r Gronfa Triniaethau Newydd, mae byrddau iechyd yn adrodd yn rheolaidd i Lywodraeth Cymru am ba mor gyflym y maent yn rhoi'r meddyginiaethau newydd ar eu rhestrau rhagnodi. Mae AWTTC yn llunio adroddiadau blynyddol ar statws fformiwlâu meddyginiaethau yr ydym ni, neu NICE, yn eu hargymell i'w defnyddio yn GIG Cymru.



**1** feddyginiaeth wedi ei gwerthuso gan AWMSG



**69** o feddyginiaethau ar y Gronfa Triniaethau Newydd

# Llwybrau mynediad

## Proses Meddyginiaethau Cymru'n Un

Cyflwynwyd proses Meddyginiaethau Cymru'n Un, llwybr amgen o fynediad at feddyginiaethau ar gyfer grwpiau penodol o gleifion sydd wedi'u diffinio'n glir ac yn benodol yn absenoldeb HTA, yn 2015. Mae'n galluogi un penderfyniad i GIG Cymru gyfan ynghylch mynediad at feddyginiaeth nad yw ar gael fel mater o drefn. Ar hyn o bryd, gellir defnyddio Cymru'n Un ar gyfer meddyginiaethau pan:

- mae deiliad trwydded y feddyginiaeth yn ymrwymo i HTA meddygaeth drwyddedig yn y dyfodol;
- nid yw'r MHRA wedi trwyddedu meddyginiaeth;
- mae'r MHRA wedi trwyddedu meddyginiaeth i drin cyflwr/ cyflyrau gwahanol; neu
- nid yw meddyginiaeth wedi'i chynnwys yn y canllawiau triniaeth gyfredol ac nid oes unrhyw feddyginiaeth addas arall wedi'i thrwyddedu i drin y cyflwr.

**11** adolygiad Cymru'n Un

**2** argymhelliad Cymru'n Un

> **Mae tîm Cymru'n Un wedi datblygu offer i ganiatáu i glinigwyr gyflwyno data canlyniadau yn ddiogel drwy NHS SharePoint. Defnyddir data canlyniadau i lywio adolygiadau o argymhellion Cymru'n Un yn ogystal â bod yn bwysig ar gyfer y sail dystiolaeth ehangach ar gyfer y triniaethau hyn.**



# Tîm Mynediad at Feddyginiaethau Masnachol



Mae'r Tîm Mynediad at Feddyginiaethau Masnachol (CMAT) yn dîm aml-sefydliadol cydweithredol sy'n cynnwys cydweithwyr o AWTTC, Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (PCGC) a Fferyllydd Arweiniol Caffael Cenedlaethol Cymru.

Rôl a chyfrifoldeb CMAT yw cefnogi a monitro gweithrediad meddyginiaethau a argymhellir gan AWMSG a NICE sy'n gysylltiedig â threfniant masnachol o fewn GIG Cymru. Mae trefniant masnachol yn gwella effeithiolrwydd cost meddyginiaeth; gall fod yn Gynllun Mynediad i Gleifion (PAS) neu'n Gytundeb Mynediad Masnachol (CAA). Mae hyn yn sail i hanfod Cymru Iachach, gan ganiatáu i gleifion gael mynediad prydlon at feddyginiaethau, tra hefyd yn sicrhau bod GIG Cymru yn cael y gwerth am arian uchaf posibl lle mae meddyginiaethau'n y cwestiwn.

**54**

**o drefniadau masnachol wedi eu gweithredu gan CMAT: o'r rhain, argymhellwyd gan**

**52** NICE

**1** AWMSG

**1** Cymru'n Un



# Adolygiad o'n llwybrau mynediad at feddyginiaethau

Wrth i'r dirwedd feddyginiaethau esblygu, mae NICE wedi symud tuag at ddull cymesur o asesu technoleg iechyd (HTA), gan symleiddio ac ail-gyflunio rhannau o broses werthuso NICE i ganiatáu dulliau cyflymach o driniaethau symlach a risg isel. Mae hyn wedi caniatáu i NICE gynyddu eu gallu a chynhyrchu canllawiau cyflym ar gyfer rhai pynciau, gan arwain at ostyngiad yn nifer y meddyginiaethau sydd angen ein hasesiad.

Er mai HTA yw'r broses asesu a ffefrir o hyd, efallai y bydd meddyginiaeth sydd â budd o ran gwasanaeth neu angen cleifion yn dod y tu allan i'r cwmpas sefydledig ar gyfer HTA, neu asesiad drwy broses Meddyginiaethau Cymru'n Un. Gall hyn gynnwys meddyginiaethau sydd ar gael yn rheolaidd mewn mannau eraill yn y DU drwy lwybrau mynediad nad ydynt yn berthnasol yng Nghymru, megis comisiynu cenedlaethol neu ganllawiau clinigol NICE. Mae angen llwybr newydd 'Cymru Gyfan' ar gyfer cynghori GIG Cymru ar feddyginiaethau pan nad oes proses asesu ar gyfer y categori hwn o feddyginiaethau yn bodoli ar hyn o bryd.

Mae AWTTC wedi adolygu'r prosesau sy'n cefnogi ein HTA ac wedi gwneud rhai awgrymiadau i sicrhau ein bod yn parhau i ddarparu cyngor amserol ar feddyginiaethau sydd o'r gwerth mwyaf i GIG Cymru. Er enghraifft, cafodd y broses ar gyfer arfarnu estyniadau i drwyddedau pediatrig (PLEs) ei hadolygu ac o ganlyniad, cytunwyd na fyddai angen AWMSG mwyach i arfarnu meddyginiaeth gyda PLE fel mater o drefn lle ceir cyngor HTA cyfatebol yn y boblogaeth sy'n oedolion. Yn hytrach, byddai disgwyl bod y byrddau iechyd yn eu hychwanegu at eu fformiwlâu fel mater o drefn.

**Mae adolygiad o'n prosesau wedi cynnwys cydweithio â'n partneriaid allweddol gan gynnwys byrddau iechyd, y rhwydwaith fformiwlâu, y Grŵp Buddiannau Cleifion a'r Cyhoedd, y diwydiant fferyllol a'n his-grwpiau (Grŵp Meddyginiaethau Newydd a Grŵp Cynghori ar Ragnodi Cymru Gyfan). Bydd diweddariadau pellach i'n prosesau yn cael eu cyhoeddi ar wefan AWTTC.**



# Ymchwil a chyhoeddiadau

## Gweithgarwch yn ystod 2023-2024

Yn ogystal ag AWTTC sy'n cefnogi'r holl waith sy'n mynd trwy AWMSG, mae Grŵp Ymchwil AWTTC yn hwyluso ymchwil o ansawdd uchel i'r defnydd diogel ac effeithiol o feddyginiaethau yng Nghymru. Mae'r themâu ymchwil allweddol yn cynnwys: mynediad at feddyginiaethau, optimeiddio meddyginiaethau a diogelwch meddyginiaethau.

Gellir gweld fideo am waith Grŵp Ymchwil AWTTC ar dudalen Ein Hymchwil gwefan AWTTC.

**Erthyglau a adolygwyd gan gymheiriaid**

- Camgymeriadau meddyginiaeth sy'n cynnwys paracetamol mewnwythiennol mewn plant: profiad o ymholiadau i'r Gwasanaeth Gwybodaeth Gwenwynau Cenedlaethol (NPIS)
- Gwella adroddiadau dirybudd o adweithiau niweidiol cyffuriau tybiedig: Trosolwg o adolygiadau systematig
- Adroddoddau o asidosis lactig sy'n gysylltiedig â Metformin i NPIS y DU rhwng 2010 a 2019: dadansoddiad ôl-weithredol deng mlynedd
- Patrymau rhagnodi cyffuriau gwrth-iselder a digwyddiadau niweidiol ar ôl cyflwyno Dangosydd Rhagnodi Cenedlaethol i fonitro'r defnydd o dosulepin yng Nghymru

Cyflwynwyd dau boster, symposiwm, ac un brif araith yng Nghyngres Flynyddol Cymdeithas Tocsicoleg Prydain. Edrychodd y posteri ar gymryd paracetamol yn fwriadol mewn plant, a methylen glas fel triniaeth atodol o sioc eilaidd i wenwyno difrifol gan metformin. Roedd y symposiwm a'r brif araith yn edrych ar y berthynas rhwng ffarmacoleg a thocsicoleg.

Cyflwynwyd pedwar poster a dau gyflwyniad llafar yn 43ain Cyngres Ryngwladol Cymdeithas Ewropeaidd Canolfannau Gwenwynau a Thocsicolegwyr Clinigol. Roedd y posteri yn ymdrin ag amrywiaeth o bynciau, gan gynnwys gwenwyno damweiniol mewn plant yn ystod COVID-19 a gwallau therapiwtig yn ymwneud â prednisolone. Canolbwyntiodd y trafodaethau ar hylifau sigaréts electronig yn cael eu rhoi yn y llygaid yn ddiofal a phryder iechyd y cyhoedd sy'n dod i'r amlwg yn ymwneud â nitrad sodiwm.

Cyflwynwyd pedwar poster yn y 10fed Cyfarfod Tocsicoleg Rhyngwladol. Roedd y pynciau'n cynnwys gwenwyndra gohiriedig ar ôl pigiadau sglefren fôr, ac achosion o wenwyndra ibogaine yn y DU.

**4 erthygl a adolygwyd gan gymheiriaid wedi'u cyhoeddi**

**10 poster cynhadledd**

**3 anerchiad cynhadledd**

**1 symposiwm**

### Cenedlaethau'r dyfodol

Mae AWTTC yn cydweithio â'r Ysgolion Fferylliaeth ym mhrifysgolion Caerdydd ac Abertawe i gefnogi prosiectau myfyrwyr MPharm israddedig. Mae'r prosiectau'n rhoi mewnwelediad i fferyllwyr yn y dyfodol i waith AWTTC a phynciau optimeiddio meddyginiaethau cyfredol yng Nghymru. Roedd prosiectau o 2023–2024 yn cynnwys ymchwiliad i gyfuniadau meddyginiaethau a wrthgymeradwywyd.

# Aelodaeth
# AWMSG

| Swydd | Aelod | Dirprwy |
|---|---|---|
| Cadeirydd | Yr Athro Iolo Doull | Yr Athro Dyfrig Hughes |
| Ymgynghorydd mewn Meddygaeth Iechyd Cyhoeddus | Yr Athro Stephen Monaghan | Aros am enwebiad |
| Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru | Ms Eleri Schiavone | Dr Saja Muwaffak |
| Economegydd Iechyd | Yr Athro Dyfrig Hughes | Yr Athro Deborah Fitzsimmons |
| Cynrychiolydd Cymru Cymdeithas Diwydiant Fferyllol Prydain | Ms Kate Parrish<br>Mr Tommy Price<br>Mr Farhan Mughal | Mae presenoldeb yn cael ei gylchdroi rhwng y tri unigolyn a enwir |
| Aelod lleyg | Mrs Pam James | Aros am enwebiad |
| Aelod lleyg | Ms Claire James | Mrs Julie Wilson-Thomas |
| Fferyllydd Cymunedol | Mr Dylan Jones | Aros am enwebiad |
| Cyfarwyddwr Meddygol | Dr Richard Skone | Dr Jim McGuigan |
| Meddyg teulu â rôl rhagnodi arweiniol | Dr Jeremy Black | Aros am enwebiad |
| Prif Fferyllydd | Mr Jonathan Simms | Mr Chris Brown |
| Fferyllydd Sector a Reolir | Ms Alison Hughes | Ms Rafia Jamil |
| Fferyllydd Sector a Reolir | Mr Stuart Rees | Mr David Fox |
| Cyfarwyddwr Cyllid | Mr Hywel Pullen | Mr James Leaves |
| Uwch Nyrs | Mrs Katherine White | Mrs Susan Newport |
| Proffesiynau gofal iechyd eraill sy'n gymwys i ragnodi nad oes ganddynt eisoes gynrychiolaeth | Mrs Cathy Wynne | Mr Karl Jackson |
| Ffarmacolegydd Clinigol | Dr Alison Thomas | Dr Manjeet Singh |
| Ymgynghorydd Allanol Ysbyty | Dr Samantha Cox | Dr Manjeet Singh |

# AWPAG



| Swydd a disgyblaeth | Aelod | Bwrdd iechyd/ ymddiriedolaeth | Bob yn ail |
|---|---|---|---|
| Cadeirydd, Ffarmacolegydd Clinigol Ymgynghorol | Dr Laurence Gray | Caerdydd a'r Fro | Mrs Clare Clement |
| **Meddyg o bob bwrdd iechyd sy'n adlewyrchu rolau gwahanol** | | | |
| Ymgynghorydd Ysbyty/Meddyg Teulu | Dr Gemma Rogers | Aneurin Bevan | |
| Ymgynghorydd Ysbyty/Meddyg Teulu | Dr Jennifer Ellis | Betsi Cadwaladr | |
| Ymgynghorydd Ysbyty/Meddyg Teulu | Aros am enwebiad | Cwm Taf Morgannwg | |
| Ymgynghorydd Ysbyty/Meddyg Teulu | Dr Laurence Gray | Caerdydd a'r Fro | |
| Ymgynghorydd Ysbyty/Meddyg Teulu | Dr Richard Brown | Hywel Dda | |
| Ymgynghorydd Ysbyty/Meddyg Teulu | Aros am enwebiad | Powys | |
| Ymgynghorydd Ysbyty/Meddyg Teulu | Dr Phil Cox (hyd at fis Medi 23) | Bae Abertawe | |
| Ymgynghorydd Ysbyty/Meddyg Teulu | Aros am enwebiad | Felindre | |
| **Fferyllydd o bob bwrdd iechyd/ymddiriedolaeth sy'n adlewyrchu rolau gwahanol** | | | |
| Fferyllydd | Mrs Eryl Smeethe | Aneurin Bevan | Ms Elizabeth Hallett |
| Fferyllydd | Ms Vicky Allum | Betsi Cadwaladr | Ms Cassandra Edgard (o fis Mawrth 24) |
| Fferyllydd | Mrs Clare Clement | Caerdydd a'r Fro | Mr Emyr Stephens |
| Fferyllydd | Mrs Helen Davies | Cwm Taf Morgannwg | Mrs Avril Tucker |
| Ymgynghorydd Rhagnodi | Mrs Hazel Hopkins | Hywel Dda | Mrs Sue Beach |
| Prif Fferyllydd | Mrs Jacqueline Seaton | Powys | Aros am enwebiad |
| Fferyllydd | Mr Darren Smith (hyd at Fawrth 24) | Bae Abertawe | Mr Dafydd Rhys Thomas (o fis Mai 23) |
| Chief Pharmacist | Mrs Bethan Tranter | Felindre | Mrs Sophie Harding |
| Fferyllydd Cymunedol | Mr Jonathan Smith (o fis Rhagfyr 23) | Cymru Gyfan | Mr Daniel Hallett (o fis Rhagfyr 23) |

# AWPAG wedi parhau



| | | | |
|---|---|---|---|
| **Fferyllydd Diogelwch Meddyginiaethau** | | | |
| | Dr Lynette James | Cymru Gyfan | Aros am enwebiad |
| **Aelodau lleyg** | | | |
| | Mrs Fiona Woods<br>Mr Malcolm Latham | | Aros am enwebiad |
| **Gweithiwr gofal iechyd proffesiynol sy'n gymwys i ragnodi** | | | |
| | Mrs Amy Williams | | Aros am enwebiad |
| **Nyrs** | | | |
| | Mrs Sarah Davies | | Ms Hayley Saunders (o fis Mai 23) |
| **Iechyd Cyhoeddus Cymru** | | | |
| | Mrs Sian Evans | | Ms Rachel Andrew (o fis Hydref 23) |
| **Cymdeithas Diwydiant Fferyllol Prydain Cymru** | | | |
| | Ms Sue Knights | | Ms Rachel Jenkins |
| **Aelodau nad ydynt yn pleidleisio** | | | |
| Cyfarwyddwr, Cymdeithas Diwydiant Fferyllol Prydain Cymru | Dr Rick Greville | | Ms Joe Ferris |
| Cyfarwyddwr, Cymdeithas Cynhyrchwyr Generig Prydain | Mr Paul Fleming | | Ms Carol Blount, Mr Michael Clarke |
| Llywodraeth Cymru | I'w hysbysu am gynrychiolaeth cyn pob cyfarfod | | |
| Aelod o Fwrdd AWTTC a chynrychiolydd AWMSG | I'w hysbysu am gynrychiolaeth cyn pob cyfarfod | | |

# NMG



| Swydd | Aelod | Dirprwy |
|---|---|---|
| Cadeirydd | Yr Athro James Coulson | |
| Is-gadeirydd | Dr Emma Mason | |
| Fferyllydd 1 | Mr Alan Clatworthy | Ms Eleri Phillips |
| Fferyllydd 2 | Mrs Teena Grenier | Aros am enwebiad |
| Fferyllydd 3 | Aros am enwebiad | Aros am enwebiad |
| Meddyg 1 - Ffarmacolegydd Clinigol | Dr Emma Mason | Aros am enwebiad |
| Meddyg 2 - Ymgynghorydd Ysbyty | Aros am enwebiad | Dr Ian Campbell |
| Meddyg 3 - Meddyg Teulu | Aros am enwebiad | Dr Avkash Jain |
| Proffesiynau sy'n gysylltiedig â meddygaeth neu sy'n gymwys i ragnodi | Mr Karl Jackson | Aros am enwebiad |
| Iechyd y Cyhoedd/Epidemiolegydd | Aros am enwebiad | Aros am enwebiad |
| Technoleg Iechyd Cymru | Dr Susan Myles | Mr Matthew Prettyjohns |
| Economegydd Iechyd | Yr Athro Deborah Fitzsimmons | Dr Catrin Plumpton |
| Aelod o Gymdeithas Diwydiant Fferyllol Prydain | Mr Sandeep Kiri<br>Olga Ovcinnikova<br>Dhwani Shah | Mae presenoldeb yn cael ei gylchdroi rhwng y tri unigolyn a enwir |
| Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru | Dr Andrew Champion (hyd at fis Hydref 23) | Dr Sian Lewis (hyd at fis Mawrth 24) |
| Aelodau lleyg | Mr Tony Esmond<br>Mrs Fiona Woods | Mrs Julie Wilson-Thomas (o fis Gorffennaf 23) |
| Nyrs | Mr Andrew Davies | Aros am enwebiad |

# OWMAG

| Swydd | Aelod | Dirprwy |
|---|---|---|
| Cadeirydd | Yr Athro John Watkins | |
| Is-gadeirydd | Dr Andrew Champion (hyd at fis Hydref 23) | |
| Cynrychiolydd Panel Ceisiadau Cyllido Cleifion Unigol (IPFR) – Hywel Dda | Dr Michael Thomas | Mrs Sue Beach |
| Cynrychiolydd Panel IPFR – Aneurin Bevan | Mr Jonathan Simms | Dr Leo Pinto |
| Cynrychiolydd Panel IPFR – Bae Abertawe | Mr Alan Clatworthy | Mr Stuart Wyn Evans |
| Cynrychiolydd Panel IPFR – Caerdydd a'r Fro | Mr Timothy Banner (o fis Ionawr 24)<br>Yr Athro Richard Hain (hyd at Ionawr 24) | Ms Lindsay Davies (o fis Mawrth 24)<br>Mr Timothy Banner (hyd at fis Ionawr 24) |
| Cynrychiolydd Panel IPFR – Powys | Dr William King | Mrs Jayne Price (o fis Medi 23) |
| Cynrychiolydd Panel IPFR – Betsi Cadwaladr | Mrs Teena Grenier | Dr Eilir Hughes (o fis Ionawr 24) |
| Cynrychiolydd Panel IPFR – Cwm Taf | Ms Kathryn Howard | Dr Brian Hawkins |
| Cynrychiolydd o Gomisiynu Arbenigol | Aros am enwebiad<br>Dr Andrew Champion (hyd at fis Hydref 23) | Aros am enwebiad<br>Dr Sian Lewis (hyd at fis Mawrth 24) |
| Ffarmacolegydd Clinigol | Yr Athro James Coulson | Dr Laurence Gray |
| Cynrychiolydd Cymru Cymdeithas Diwydiant Fferyllol Prydain | Ms Joe Ferris | Dr Rick Greville |
| Economegydd Iechyd | Aros am enwebiad<br>Dr Shaun Harris (hyd at fis Chwefror 24) | Dr Will Hardy (o fis Mai 23) |
| Aelod lleyg | Mr Malcolm Latham | Mrs Julie Wilson-Thomas |
| Cyfarwyddwr Cyllid | Mr Hywel Pullen | Aros am enwebiad |
| Cynrychiolydd Grŵp Cynghori ar Ragnodi Cymru Gyfan | Mrs Bethan Tranter | Aros am enwebiad |
| Cynrychiolydd Grŵp Meddyginiaethau Newydd | Dr Ian Campbell | Yr Athro James Coulson |
| Cynrychiolydd Grŵp IPFR Ymddiriedolaeth Felindre | Mrs Bethan Tranter | Dr Simon Waters |

AWTTC
All Wales Therapeutics & Toxicology Centre
Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan

Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan
All Wales Medicines Strategy Group


Cyhoeddwyd gan:
Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan
Canolfan Academaidd Routledge
Ysbyty Athrofaol Llandochau
Bro Morgannwg
CF64 2XX

Ar ran Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan



Dylid cyfeirio pob ymholiad at:
Mrs Ruth Lang
Uwch Reolwr Cyswllt
E-bost: awttc@wales.nhs.uk
Rhif ffôn: 029 218 26900


Noder bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir ar adeg argraffu, ond gallai newid.
I gael y wybodaeth ddiweddaraf, ewch i:
awttc.nhs.wales (Gwefan Saesneg)
cttcg.gig.cymru (Gwefan Gymraeg)
@AWTTCcomms (Cyfrif X Saesneg)
@AWTTCcymraeg (Cyfrif X Cymraeg)
LinkedIn (Cymraeg a Saesneg)

Dychwelyd i ddechrau'r adroddiad

GIG CYMRU NHS WALES